Senedd Cymru
**Business Committee**

# **Diwygio Rheolau Sefydlog:** Adolygiad cyfyngedig o weithdrefnau Biliau Cydgrynhoi

Ionawr 2024

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy’n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae’r adroddiad hwn yn argymell nifer fach o ddiwygiadau i Reol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi’r Senedd – yn dilyn adolygiad cyfyngedig y Pwyllgor Busnes o weithdrefnau’r Senedd ar gyfer Biliau Cydgrynhoi. Cynhaliwyd yr adolygiad cyfyngedig hwn i ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar ôl iddo gwblhau ei waith ar y Bil Cydgrynhoi cyntaf i gael ei gyflwyno gerbron y Senedd, a chyn cyflwyno'r Bil Cydgrynhoi nesaf.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Cefndir ... 3**

Diben Bil Cydgrynhoi ... 3

Proses ar gyfer Bil Cydgrynhoi ... 4

Adolygu Rheol Sefydlog 26C ... 4

**2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes ... 6**

Cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ... 6

Cytundeb ar symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu Gyfnod Terfynol ... 8

Amserlenni i Aelodau wrthwynebu argymhelliad y pwyllgor cyfrifol ... 10

Cywiriadau teipograffyddol amrywiol ... 12

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26C, a nodiadau esboniadol ... 14**

**Atodiad B: Rheol Sefydlog 26C wedi'i diwygio ... 18**

# 1. Cefndir

**1.** Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) oedd y Bil Cydgrynhoi cyntaf i gael ei gyflwyno gerbron y Senedd (ar 4 Gorffennaf 2022) a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Arweiniwyd y gwaith craffu ar y Bil gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**2.** Ar 28 Medi 2023, ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Pwyllgor Busnes i dynnu ei sylw at nifer fach o faterion gweithdrefnol yr oedd wedi'u nodi yn ystod ei ystyriaeth o'r Bil.[1]

**3.** Mewn ymateb i'r llythyr, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal adolygiad cyfyngedig o'r Rheolau Sefydlog penodol y cyfeiriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad atynt.[2] Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wneud hyn cyn i'r Bil Cydgrynhoi nesaf gael ei gyflwyno, a chyn adolygiad llawn o Reol Sefydlog 26C a fwriedir ar adeg ddiweddarach yn ystod y Senedd hon.

## Diben Bil Cydgrynhoi

**4.** Diben cyflwyno Bil Cydgrynhoi yw gwella mynediad i'r gyfraith drwy:

- ddwyn ynghyd yr holl ddeddfwriaeth, neu'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth (sylfaenol ar y cyfan) ar bwnc neu destun penodol;
- moderneiddio ei ffurf a'r ffordd caiff ei drafftio, i'w gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso.[3]

**5.** Cyflwynwyd gweithdrefnau i alluogi'r Senedd i ystyried Biliau Cydgrynhoi i'r Senedd ym mis Mawrth 2021 mewn Rheol Sefydlog newydd (Rheol Sefydlog 26C). Roedd hyn yn dilyn gwaith helaeth yn y Bedwaredd a'r Bumed Senedd gan Bwyllgorau Busnes rhagflaenol, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y pryd, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith.

[1] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llythyr at y Pwyllgor Busnes: Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd, 28 Medi 2023.
[2] Pwyllgor Busnes, Cofnodion cyfarfod 3 Hydref 2023.
[3] Gan na ddylai Biliau Cydgrynhoi gyflwyno unrhyw ddiwygiadau i bolisi, dylai'r broses o ddatblygu Bil Cydgrynhoi a chraffu arno fod yn un gyfreithiol, dechnegol, sy'n canolbwyntio ar gydgrynhoi'r gyfraith bresennol yn hytrach na rhinweddau'r polisïau sydd wedi'u hymgorffori ynddi.

## Proses ar gyfer Bil Cydgrynhoi

**6.** Mae Rheol Sefydlog 26C yn darparu ar gyfer proses pedwar cyfnod er mwyn ystyried Bil Cydgrynhoi, gyda'r trydydd cyfnod yn ddewisol (ac nid yw'r Senedd wedi'i ddefnyddio eto):

- Ystyriaeth Gychwynnol - rhaid i'r pwyllgor cyfrifol (y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Chweched Senedd) ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, a chyflwyno adroddiad ar hynny. Yna mae angen cymeradwyaeth y Senedd ar y Bil i symud ymlaen fel Bil Cydgrynhoi.

- Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor - y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r Bil ac unrhyw welliannau a gyflwynir i'r Bil hwnnw. Rhaid i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd ystyried a ddylai'r Bil symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu i'r Cyfnod Terfynol ac adrodd ar hynny. Dilynir argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad oni bai bod y Senedd yn pasio cynnig i'r gwrthwyneb.

- Ystyriaeth Fanwl y Senedd - y Senedd yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r Bil, ac unrhyw welliannau a gyflwynir i'r Bil hwnnw.

- Cyfnod Terfynol - pleidlais gan y Senedd i basio testun terfynol y Bil.

## Adolygu Rheol Sefydlog 26C

**7.** Fel rhan o'i adroddiad ar Reol Sefydlog 26C newydd, nododd Pwyllgor Busnes y Bumed Senedd ei ddisgwyliad y byddai ei bwyllgor olynol —yn unol ag arfer arferol ar gyfer gweithdrefnau newydd sylweddol o'r math hwn—yn cynnal adolygiad o ddulliau gweithredu'r gweithdrefnau hyn pan fyddai rhywfaint o brofiad o'u defnyddio'n ymarferol.[4] Nododd y Pwyllgor Busnes ar y pryd hefyd ei ddisgwyliad y byddai ei olynydd yn "ymgynghori â Llywodraeth Cymru, y pwyllgor cyfrifol, ac eraill i lywio'r adolygiad hwnnw a chanfod unrhyw feysydd o'r weithdrefn sydd angen eu diwygio."

**8.** Cefnogwyd yr achos dros adolygu Rheol Sefydlog 26C gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chymdeithasol y Chweched Senedd yn ei adroddiad yn ystod y cam ystyriaeth gychwynnol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol

[4] Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Cydgrynhoi, Mawrth 2021.

(Cymru).[5] Roedd yr adroddiad hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd wrth gynnal unrhyw adolygiad o Reolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â gofynion neu gyfyngiadau newydd ar y ffordd y mae'r Senedd yn ystyried cynigion deddfwriaethol yng nghyd-destun maes cyfun o'r gyfraith.

**9.** Disgwylir y Bil Cydgrynhoi nesaf rywbryd yn ystod haf 2024[6], a daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y byddai'n werth cynnal adolygiad cyfyngedig o'r nifer fach o faterion a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad cyn yr adolygiad llawn yn y dyfodol, er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion y gellir eu datrys cyn cyflwyno'r ail Fil. Bwriad y Pwyllgor Busnes yw bod yr adolygiad llawnach o Reol Sefydlog 26C—a argymhellwyd gan Bwyllgor Busnes a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bumed Senedd — yn cael ei gynnal cyn diwedd y Chweched Senedd, ac yn:

- edrych ar Reol Sefydlog 26C yn ei gyfanrwydd,
- manteisio ar yr hyn a ddysgwyd o'r ail Fil Cydgrynhoi,
- galluogi ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, a
- caniatáu archwilio unrhyw faterion a ystyrir yn rhy gymhleth ar gyfer yr adolygiad cyfyngedig hwn.

[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
[6] Llywodraeth Cymru, Ail Adroddiad Blynyddol ar raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, 1 Tachwedd 2023.

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

**10.** Roedd adolygiad cyfyngedig y Pwyllgor Busnes o Reol Sefydlog 26C yn canolbwyntio ar y tri mater canlynol a amlygwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar ôl iddo gwblhau ei ystyriaeth o'r Bil Cydgrynhoi cyntaf i gael ei gyflwyno gerbron y Senedd:

- Pryd yr ystyrir bod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi'i chwblhau.
- Yr effaith os yw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn methu â dod i gytundeb mwyafrif ynghylch a ddylai Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu Gyfnod Terfynol.
- Yr amser sydd ar gael i Aelod o'r Senedd wrthwynebu argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch a ddylai Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu Gyfnod Terfynol.

**11.** Ystyriwyd hefyd nifer fach o gywiriadau teipograffyddol amrywiol.

## Cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

### Gweithdrefnau presennol

**12.** Mae Rheol Sefydlog 26C fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yn datgan:

26C.35 Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i derbyn, pa un bynnag yw'r olaf.

26C.36 Ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl, ac a ddylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu i'r Cyfnod Terfynol yn ei farn ef.

**13.** Mae geiriad Rheol Sefydlog 26C.35 yn seiliedig ar ddarpariaethau yn Rheol Sefydlog 26.26 ar gyfer diwedd trafodion Cyfnod 2 ar Fil Cyhoeddus (a diwedd Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar gyfer Biliau Preifat a Hybrid[7]). Fodd bynnag, yn

[7] Gweler Rheolau Sefydlog 26A.78 ar gyfer Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor o Filiau Preifat a 26B.76 ar gyfer Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor o Filiau Hybrid.

achos Biliau Cydgrynhoi, mae Rheol Sefydlog 26C.36 yn gosod gofyniad ychwanegol ar y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: pan fydd y trafodion wedi'u cwblhau (h.y. gwaredwyd yr holl welliannau / bernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'u cytuno), rhaid iddo adrodd ar ganlyniadau Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor a rhoi ei farn ynghylch a ddylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu'r Cyfnod Terfynol.

**14.** Yn ei lythyr at y Pwyllgor Busnes, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn tynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at "broblem bosibl gyda'r syniad bod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn cael ei chwblhau pan waredir y gwelliant olaf neu bernir bod yr adran / Atodlen olaf wedi'i chytuno o ystyried y rhwymedigaeth i gyflwyno adroddiad".[8]

## Casgliadau'r adolygiad cyfyngedig

**15.** O ystyried natur dau gam Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor (h.y. gwaredu gwelliannau ac yna'r adroddiad ar ganlyniad ystyriaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad), mae'r Pwyllgor Busnes yn dod i'r casgliad y byddai'n ddefnyddiol darparu eglurder (yn enwedig ar gyfer y pwyllgor cyfrifol a'r Aelodau) ynghylch y gwahaniaeth rhwng diwedd trafodion Manwl y Pwyllgor ac yna gyflwyno adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**16.** Mae'r Pwyllgor Busnes o'r farn y byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol oherwydd:

- mae'r dyddiad y mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyflwyno adroddiad yn gallu bod yn arwyddocaol: ni all gwaith Ystyriaeth Fanwl y Senedd ddechrau tan ddwy wythnos eistedd ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad (oni bai bod y Senedd yn derbyn cynnig i ystyried gwelliannau yn Ystyriaeth Fanwl y Senedd);[9]

- ar yr amod nad yw'r Senedd wedi penderfynu ymgymryd ag Ystyriaeth Fanwl y Senedd na chytuno ar gynnig i symud ymlaen yn syth i Gyfnod Terfynol, yr unig adeg y gellir ystyried cynnig Cyfnod Terfynol yw dwy wythnos eistedd ar ôl naill ai: mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei ystyriaeth

[8] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llythyr at y Pwyllgor Busnes: Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd, 28 Medi 2023.
[9] Rheol Sefydlog 26C.42.

fanwl; neu ar ôl i'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad fynd heibio.[10]

**17.** I ddarparu'r eglurder hwn, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig diwygio Rheol Sefydlog 26C fel bod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn cael ei chwblhau dim ond yn yr achosion a ganlyn:

- pan gaiff y gwelliant olaf ei waredu neu pan gytunir ar yr adran / atodlen olaf, **a**
- phan mae'r pwyllgor cyfrifol wedi adrodd ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl (neu'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol iddo adrodd wedi mynd heibio).

## Cytundeb ar symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu Gyfnod Terfynol

### Gweithdrefnau presennol

**18.** Ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, mae Rheol Sefydlog 26C.36 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adrodd ynghylch a ddylai'r Senedd ystyried gwelliannau yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu a ddylai'r Bil symud yn syth i Gyfnod Terfynol.

**19.** Os yw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn argymell bod y Bil yn destun Ystyriaeth Fanwl y Senedd, caiff yr argymhelliad ei dderbyn oni bai bod y Senedd yn derbyn cynnig y dylai'r Bil symud yn syth i Gyfnod Terfynol.[11] Yn yr un modd, os yw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn argymell bod y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod Terfynol, neu os bydd y dyddiad cau o ran pryd y mae'n rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad wedi mynd heibio, bydd y Bil Cydgrynhoi yn symud ymlaen i Gyfnod Terfynol oni bai bod y Senedd yn derbyn cynnig y dylid cynnal Ystyriaeth Fanwl y Senedd.[12]

**20.** Gall unrhyw Aelod gyflwyno cynnig yn erbyn argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a rhaid i'r Senedd ystyried unrhyw gynnig o'r fath. Caniateir trafod y cynnig ond ni chaniateir ei ddiwygio.[13]

[10] Rheol Sefydlog 26C.58.
[11] Rheol Sefydlog 26C.39.
[12] Rheol Sefydlog 26C.40.
[13] Rheol Sefydlog 26C.41.

**21.** Felly, yn wahanol i Filiau Cyhoeddus, Hybrid a Phreifat, nid yw symud ymlaen i gam diwygio ar gyfer y Senedd gyfan yn awtomatig yn achos Bil Cydgrynhoi. Yn hytrach, caiff argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei dderbyn oni bai bod cynnig gan unrhyw Aelod yn cynnig dull gwahanol yn cael ei gynnig a'i fod yn cael ei dderbyn wedyn gan y Senedd. Eglurodd adroddiad Pwyllgor Busnes y Bumed Senedd ar gyflwyno Rheolau Sefydlog ar gyfer Biliau Cydgrynhoi y dull hwn fel a ganlyn:

> *"Mae'r weithdrefn [Ystyriaeth Fanwl y Senedd] yn darparu ar gyfer y dewis o gyfnod diwygio yn y Cyfarfod Llawn pe bai angen un. O ystyried y cyfyngiadau sylweddol ar natur a graddau Bil Cydgrynhoi, rhagwelir na fyddai llawer o welliannau yn cael eu cyflwyno, ac fel arfer byddai'r rhain yn cael eu trafod yn ystod cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen ail gyfnod diwygio o bryd i'w gilydd, y darperir ar ei gyfer yn Ystyriaeth Fanwl y Senedd."*[14]

**22.** Yn ei lythyr at y Pwyllgor Busnes, gwnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dynnu sylw at fater a allai godi os na all gytuno ynghylch a ddylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu'r Cyfnod Terfynol.[15]

**23.** Mewn amgylchiadau arferol, wrth wynebu anallu i ddod i gytundeb, gall pwyllgorau bleidleisio i benderfynu ar y ffordd ymlaen ac yn ymarferol gallant barhau i bleidleisio hyd nes y ceir cyfaddawd. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfle i gyfaddawdu sydd i'w gael o ran y dewis deuaidd rhwng bod Bil Cydgrynhoi cael Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu beidio.

## Casgliadau'r adolygiad cyfyngedig

**24.** Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y senario a amlinellwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, yn benodol sefyllfa lle na allai gyrraedd barn fwyafrifol, ac mae trafodaethau yn arwain at bleidlais gyfartal. Nododd y Pwyllgor Busnes, mewn achos o'r fath, y bydd pleidlais fwrw'r cadeirydd yn cael ei defnyddio. Nodwyd ymhellach fod Rheolau Sefydlog 17.37 a 6.20 yn ei gwneud yn ofynnol i bleidlais fwrw cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gael ei bwrw'n gadarnhaol lle mae trafodaeth

[14] Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Cydgrynhoi, Mawrth 2021.
[15] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llythyr at y Pwyllgor Busnes: Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd, 28 Medi 2023.

bellach ar y mater gerbron y Senedd yn bosibl, neu'n negyddol lle nad yw trafodaeth bellach yn bosibl neu lle mae pleidlais ynghylch gwelliant.

**25.** Gan fod Rheol Sefydlog 26C yn caniatáu i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ddewis naill ai Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu'r Cyfnod Terfynol, mae'r Pwyllgor Busnes yn cydnabod nad oes "safbwynt diofyn" penodol i'w roi i aelodau'r pwyllgor - gallai'r cwestiwn a ofynnir ar gyfer y bleidlais fod "*i'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd*" neu "*i'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Gyfnod Terfynol*".

**26.** Nododd y Pwyllgor Busnes, er na phrofwyd hyn hyd yma, pe bai pleidlais gyfartal, byddai clercod yn ymarferol yn cynghori cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i arfer eu pleidlais fwrw ym mha bynnag ffordd fyddai'n golygu bod y Bil Cydgrynhoi yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd. Hyn fyddai'n cydweddu orau â'r cynseiliau a'r egwyddorion sylfaenol a gymhwysir i'r defnydd o bleidlais fwrw – h.y. galluogi trafodaeth bellach ar y mater gerbron y Senedd.

**27.** Ar y seiliau a ganlyn:

- ni chododd y mater yn ymarferol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth ystyried y Bil Cydgrynhoi cyntaf, a
- os bydd sefyllfa lle nad yw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gallu dod i gytundeb ar yr ail Fil Cydgrynhoi, bydd y cadeirydd yn cael cyngor gweithdrefnol yn unol â'r cynseiliau a'r egwyddorion sylfaenol a gymhwysir o ran defnyddio pleidlais fwrw, er mwyn galluogi busnes i barhau,

mae'r Pwyllgor Busnes yn fodlon y byddai'n briodol dychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach yn y Senedd hon, fel rhan o'r adolygiad llawnach o Reol Sefydlog 26C.

## Amserlenni i Aelodau wrthwynebu argymhelliad y pwyllgor cyfrifol

### Gweithdrefnau presennol

**28.** Mae Rheolau Sefydlog 26C.39 a 26C.40 yn caniatáu i unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu'r argymhelliad a wneir yn adroddiad Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno cynnig yn

erbyn yr argymhelliad. Mae Rheol Sefydlog 26C.41 yn sicrhau bod yn rhaid i'r Senedd ystyried cynnig o'r fath, a gellir ei drafod ond ni ellir ei ddiwygio.

**29.** Yn ymarferol, bydd angen i unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu symud yn gyflym i gyflwyno a cheisio cytundeb y Senedd i'w cynnig oherwydd:

- mae Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn dechrau ddwy wythnos ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adrodd y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Senedd,[16] neu

- gellir ystyried cynnig Cyfnod Terfynol unwaith y bydd dwy wythnos eistedd wedi mynd heibio ers i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adrodd y dylai'r Bil symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol (neu ddwy wythnos eistedd ar ôl y dyddiad cau erbyn pryd yr oedd yn ofynnol i'r pwyllgor adrodd)[17].

**30.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor Busnes, gwnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyfeirio at yr amserlenni tyn sy'n wynebu Aelod sy'n dymuno gwrthwynebu argymhelliad y pwyllgor cyfrifol:

> *"…pe bai Aelod nad yw'n rhan o'r llywodraeth yn anghytuno â'n hargymhelliad yn ein hadroddiad a osodwyd gerbron y Senedd ar [ddydd Gwener] 10 Mawrth 2023 ac eisiau trafod cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.39 neu 26C.40, rydym o'r farn bod angen i'r Aelod fod wedi cyflwyno'r cais i'r Pwyllgor Busnes erbyn [dydd Mawrth] 14 Mawrth 2023."*[18]

**31.** Mae cyfrifiadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn seiliedig ar yr isod:

- Ar ddydd Mawrth a dydd Mercher yn unig mae'r Senedd yn cwrdd fel arfer.

- Y gofyniad yn Rheol Sefydlog 11.11 bod trefniadaeth busnes yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei gyhoeddi un wythnos eistedd ymlaen llaw.

- Y gofyniad yn Rheol Sefydlog 12.20 bod cynnig yn cael ei gyflwyno o leiaf bum niwrnod gwaith cyn iddo gael ei drafod.

[16] Rheol Sefydlog 26C.42.
[17] Rheol Sefydlog 26C.58.
[18] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llythyr at y Pwyllgor Busnes: Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd, 28 Medi 2023.

- Y dyddiad cau y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad yw dydd Gwener.

### Casgliadau'r adolygiad cyfyngedig

**32.** Gwnaeth y Pwyllgor Busnes ystyried diwygio Rheolau Sefydlog perthnasol er mwyn caniatáu rhagor o amser i'r Aelodau ystyried adroddiad ac argymhelliad y pwyllgor cyfrifol a gweithredu arnynt, drwy ymestyn yr amser rhwng adroddiad y pwyllgor cyfrifol ac Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn gallu dechrau/ystyried cynnig Cyfnod Terfynol yn bosibl.

**33.** Roedd rhywfaint o gefnogaeth yn y Pwyllgor Busnes i ymestyn y ffenestr o ddwy i dair wythnos eistedd ar y sail y byddai'n galluogi'r canlynol:

- galluogi Aelod i drafod y mater mewn cyfarfod grŵp plaid (ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl yn yr enghraifft a roddir yn llythyr y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad heb ddatgelu cynnwys adroddiad nas cyhoeddwyd),
- caniatáu un cylch o gyfarfodydd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i roi rhybudd o fwriad i gyflwyno cynnig (yn enghraifft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, mae'n debygol y byddai angen ychwanegu eitem hwyr at agenda'r Pwyllgor Busnes),
- caniatáu i Aelod sydd heb gynrychiolaeth wleidyddol ar y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gael amser i ystyried ei adroddiad ac ystyried ei safbwynt mewn perthynas â'r Bil Cydgrynhoi, a
- mae'n annhebygol y bydd yn cael effaith ddifrifol ar amserlen Bil Cydgrynhoi, o ystyried mai nad bwriad Biliau Cydgrynhoi yw cyflwyno polisi newydd.

**34.** Fodd bynnag, gan na fu cefnogaeth unfrydol ar gyfer y newid hwn ac ar y sail na wnaeth yr Aelodau adrodd problemau gyda'r Rheolau Sefydlog hyn yn ystod hyd y Bil Cydgrynhoi cyntaf, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y byddai'n dychwelyd at y mater hwn fel rhan o'r adolygiad llawnach o Reol Sefydlog 26C a fwriedir ar adeg ddiweddarach yn ystod y Senedd hon.

## Cywiriadau teipograffyddol amrywiol

**35.** Yn ystod yr adolygiad cyfyngedig hwn o Reol Sefydlog 26C, mae'r Pwyllgor Busnes wedi nodi nifer fach o gywiriadau teipograffyddol.

## Croesgyfeirio

**36.** Ar hyn o bryd mae Rheol Sefydlog 26C.54 yn cynnwys gwall croesgyfeirio, gan gyfeirio at Reol Sefydlog 26C.85 yn hytrach na Rheol Sefydlog 26C.82. Gan ei bod yn amlwg o Reol Sefydlog 26C.54 mai'r bwriad yw croesgyfeirio'r meini prawf derbyniadwyedd a restrir yn Rheol Sefydlog 26C.82 (yn hytrach na Rheol Sefydlog 26C.85, sy'n ymdrin â threfniadau ar gyfer grwpio gwelliannau at ddibenion trafod), mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod hyn yn cael ei gywiro fel rhan o'r adolygiad cyfyngedig hwn.

## Cysondeb

**37.** Yn gyffredinol, mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn defnyddio geiriau, yn hytrach na rhifolion, i ddynodi rhifau un i naw (gyda rhifolion yn cael eu defnyddio ar gyfer rhifau 10 ac uwch). Gan fod Rheol Sefydlog 26C yn defnyddio cymysgedd o'r ddau yn Saesneg ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod rhifolion o dan 10 yn cael eu disodli gan eiriau yn Rheol Sefydlog 26C yn Saesneg, er cysondeb.

**38.** Mae Rheol Sefydlog 26C hefyd yn defnyddio gwahanol iaith mewn gwahanol leoedd wrth gyfeirio at y dyddiad cau ar gyfer adroddiad y pwyllgor cyfrifol ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl. Mae Rheolau Sefydlog 26C.40 a 26C.58 yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae'r dyddiad cau "wedi mynd heibio" tra bod Rheol Sefydlog 26C.18 yn cyfeirio at "y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad". Gan fod effaith y ddau ymadrodd yr un peth, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod defnyddio "fynd heibio" trwy gydol Rheol Sefydlog 26C, er mwyn cysondeb ac eglurder.[19]

[19] Ymdrinnir â'r un anghysondeb mewn mannau eraill yn y Rheolau Sefydlog (Rheol Sefydlog 25.30, 26.11 a 29.8) pan fydd y Rheolau Sefydlog hynny'n cael eu hystyried nesaf gan y Pwyllgor Busnes.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26C, a nodiadau esboniadol

| **Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd** | | |
|---|---|---|
| 26C.18 | Heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ~~ar ôl~~ naill ai:<br>(i) ar ôl i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad sy'n trafod a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi; neu<br>(ii) ar ôl ~~y~~i'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad fynd heibio,<br>caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gynnig bod y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Ychwanegu'r geiriau 'fynd heibio' er mwyn eglurder a chysondeb iaith o fewn y Rheol Sefydlog. |
| 26C.35 | Mae trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ~~ar ben~~wedi'u cwblhau pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i derbyn, pa un bynnag yw'r olaf. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid hwn i egluro mai dim ond trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor sydd wedi'u cwblhau (yn hytrach na'r Cyfnod cyfan) pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran/atodlen olaf wedi'i derbyn. |
| 26C.36 | Ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl, ac a ddylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu i'r Cyfnod Terfynol yn ei farn ef. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth. |

| **Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd** | | |
|---|---|---|
| 26C.36A | Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd:<br>(i) trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi'u cwblhau; a<br>(ii) naill ai'r pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl neu'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26.C13 wedi mynd heibio. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Diben y newid hwn yw rhoi eglurder bod cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor proses y Bil Cydgrynhoi ar ben dim ond pan fydd y canlynol yn digwydd:<br>• trafodion wedi'u cwblhau (hynny yw, pan gaiff y gwelliant olaf ei waredu neu pan gytunir ar yr adran / atodlen olaf), a<br>• y pwyllgor cyfrifol wedi adrodd ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl (neu'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol iddo adrodd wedi mynd heibio). |
| 26C.52 | Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd wedi'u gwaredu, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth, heb hysbysiad, gynnig bod y Senedd yn ystyried rhagor o welliannau mewn trafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd. Ni chaniateir trafod cynnig o'r fath na'i ddiwygio. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 26C.53 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.52, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno gwelliannau i'r Bil Cydgrynhoi i'w cynnig yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |

| **Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd** | | |
|---|---|---|
| 26C.54 | Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog ~~26C.85~~26C.82, dim ond os ydynt wedi'u bwriadu i egluro darpariaeth mewn Bil Cydgrynhoi (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) neu i weithredu ymrwymiadau a roddwyd yn nhrafodion cynharach Ystyriaeth Fanwl y Senedd y mae gwelliannau o dan Reol Sefydlog 26C.53 yn dderbyniadwy. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Disodli'r croesgyfeiriad anghywir i Reol Sefydlog 26C.85 (sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer grwpio gwelliannau at ddibenion trafod) â Rheol Sefydlog 26C.82 (sy'n cynnwys meini prawf derbyniadwyedd perthnasol ar gyfer gwelliannau) fel y bwriadwyd yn wreiddiol. |
| 26C.58 | Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil Cydgrynhoi, ond ni chaiff ei ystyried hyd nes naill ai:<br>(i) dwy wythnos eistedd o leiaf naill ai:<br>(a) ar ôl i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor o ran y Bil Cydgrynhoi a'i fod wedi argymell y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol; neu<br>(b) ar ôl i'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad wedi mynd heibio;<br>(ac nad yw'r Senedd wedi derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.40 y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn y cyfamser); neu<br>(ii) o leiaf pum diwrnod gwaith naill ai: | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth. Cafodd y rhifolion o dan 10 eu disodli gyda geiriau yn y Rheolau Sefydlog Saesneg, er cysondeb ar draws y Rheolau Sefydlog. |

| **Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd** | | |
|---|---|---|
| | (a) ar ôl i'r Senedd dderbyn cynnig y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen yn syth i'r Cyfnod Terfynol o dan Reol Sefydlog 26C.39; neu<br>(b) ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd, os cawsant eu cynnal. | |
| 26C.82 | Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:<br>(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26C;<br>(ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil Cydgrynhoi neu ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi y byddai'n ei ddiwygio;<br>(iii) os byddai'n achosi i'r Bil beidio â bod yn Fil Cydgrynhoi fel y'i diffinnir yn Rheolau Sefydlog 26C.1 a 26C.2; neu<br>(iv) os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y Cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth. |
| 26C.85 | Caiff cadeirydd pwyllgor sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |

# Atodiad B: Rheol Sefydlog 26C wedi'i diwygio

## RHEOL SEFYDLOG 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

### Initial Consideration

26C.15. Pan fydd Bil Cydgrynhoi wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Bil Cydgrynhoi at y pwyllgor cyfrifol ar gyfer yr ystyriaeth gychwynnol.

26C.16. Pan fydd y Pwyllgor Busnes yn cyfeirio'r Bil Cydgrynhoi at y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 26C.15, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol hwnnw ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi a chyflwyno adroddiad ar hynny.

26C.17. Wrth ystyried a ddylai Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, caiff y pwyllgor cyfrifol ystyried:

(i) a yw'r Pwyllgor yn fodlon bod cwmpas y gwaith cydgrynhoi yn briodol;

(ii) a yw'r Pwyllgor yn fodlon bod y deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys wrth gydgrynhoi;

(iii) a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig;

(iv) a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson;

(v) unrhyw faterion eraill y mae'n barnu eu bod yn berthnasol i Reol Sefydlog 26C.

26C.18. Heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith naill ai:

(i) ar ôl i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad sy'n trafod a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi; neu

(ii) ar ôl i'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad fynd heibio,

caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gynnig bod y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.

26C.19. Os bydd y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, mae'r Bil yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.20. Os na fydd y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, mae'r Bil yn methu.

26C.21. Mae'r Ystyriaeth Gychwynnol ar ben pan fydd y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi neu pan fydd y Bil Cydgrynhoi yn methu adeg yr Ystyriaeth Gychwynnol..

## Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

26C.22. Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol ymgymryd ag Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.23. Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol ddod i ben..

26C.24. Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor cyfrifol yn ystyried gwelliannau i'r Bil Cydgrynhoi.

26C.25. Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei ddiwygio yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor..

26C.26. Caniateir i welliannau sydd i'w hystyried yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau.

26C.27. Mae'r gwelliannau i'w gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Cydgrynhoi, oni bai bod y pwyllgor sy'n ymgymryd â thrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi penderfynu fel arall.

26C.28. Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor sy'n ymgymryd â thrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor a gaiff gymryd rhan yn y trafodion hynny er mwyn:

(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu

(ii) pleidleisio.

26C.29. Caniateir i welliant a gyflwynir gan Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor sy'n ymgymryd â thrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor.

26C.30. Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi'u gwaredu, caiff unrhyw aelod o'r pwyllgor gynnig, heb hysbysiad, fod y pwyllgor yn ystyried rhagor o welliannau yn nhrafodion 166 Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. Ni chaniateir trafod cynnig o'r fath na'i ddiwygio.

26C.31. Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.30, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno gwelliannau i'r Bil Cydgrynhoi i'w cynnig yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.

26C.32 Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26C.82, dim ond os ydynt wedi'u bwriadu i egluro darpariaeth mewn Bil Cydgrynhoi (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) neu i weithredu ymrwymiadau a roddwyd yn nhrafodion cynharach Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y mae gwelliannau o dan Reol Sefydlog 26C.31 yn dderbyniadwy

26C.33. Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y pwyllgor wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.34 Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.Fanwl y Pwyllgor.

26C.35. Mae trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi'u cwblhau pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i derbyn, pa un bynnag yw'r olaf.

26C.36. Ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl, ac a ddylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu i'r Cyfnod Terfynol yn ei farn ef.

26C.36A.Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd:

(i) trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi'u cwblhau; a

(ii) naill ai'r pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl neu'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26.C13 wedi mynd heibio.

26C.37 Os caiff Bil Cydgrynhoi ei ddiwygio yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

26C.38. Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26C.37 gael ei osod o leiaf pum niwrnod gwaith cyn dyddiad trafodion y Cyfnod Terfynol neu, lle bo'n berthnasol, trafodion cyntaf Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

## Ystyriaeth Fanwl y Senedd

26C.39. Os bydd y pwyllgor cyfrifol yn adrodd adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Senedd, bydd y Bil Cydgrynhoi yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd, oni bai bod y Senedd yn derbyn cynnig y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud yn syth i'r Cyfnod Terfynol..

26C.40. Os bydd y pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad ar Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar y Bil Cydgrynhoi ac wedi argymell y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol, neu os bydd y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad wedi mynd heibio, bydd y Bil Cydgrynhoi yn symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol, oni bai bod y Senedd yn derbyn cynnig bod y Senedd yn ystyried gwelliannau yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.41. Rhaid i'r Senedd ystyried cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26C.39 neu 26C.40. Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig o'r fath, a chaniateir ei drafod ond ni chaniateir ei ddiwygio.

26C.42. Mae Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn dechrau naill ai:

(i) dwy wythnos eistedd ar ôl i'r pwyllgor cyfrifol adrodd adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Senedd (ac nad yw'r Senedd yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.39 y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen yn syth i'r Cyfnod Terfynol yn y cyfamser); neu

(ii) y diwrnod ar ôl i'r Senedd dderbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.40 y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.43. Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Ystyriaeth Fanwl y Senedd a dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.44. Rhaid i drafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd ar Fil Cydgrynhoi gael eu hystyried gan y Senedd mewn cyfarfod llawn.

26C.45 Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei ddiwygio yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.46. Caniateir i welliannau sydd i'w hystyried yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn dechrau.

26C.47. Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â hwy yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.48. O dan amgylchiadau eithriadol, caiff y Llywydd dderbyn gwelliant yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26C.83. Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr"..

26C.49. Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Cydgrynhoi, oni bai bod y Senedd wedi penderfynu fel arall drwy gynnig gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth.

26C.50. Drwy gynnig heb hysbysiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth, caiff y Senedd gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i 168 fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi'u grwpio gan y Llywydd).

26C.51 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.50, rhaid i'r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i'r graddau y mae'r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:

(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu

(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser rhag cael ei chwtogi'n afresymol.

26C.52. Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd wedi'u gwaredu, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth, heb hysbysiad, gynnig bod y Senedd yn ystyried rhagor o welliannau mewn trafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd. Ni chaniateir trafod cynnig o'r fath na'i ddiwygio.

26C.53. Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.52, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno gwelliannau i'r Bil Cydgrynhoi i'w cynnig yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd.

26C.54. Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26C.82, dim ond os ydynt wedi'u bwriadu i egluro darpariaeth mewn Bil Cydgrynhoi (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) neu i weithredu ymrwymiadau a roddwyd yn nhrafodion cynharach Ystyriaeth Fanwl y Senedd y mae gwelliannau o dan Reol Sefydlog 26C.53 yn dderbyniadwy

26C.55. Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y Senedd wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.56. Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, bernir bod y Senedd wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.57. Mae Ystyriaeth Fanwl y Senedd ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i derbyn, pa un bynnag yw'r olaf.

## Y Cyfnod Terfynol

26C.58. Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil Cydgrynhoi, ond ni chaiff ei ystyried hyd nes naill ai::

(i) dwy wythnos eistedd o leiaf naill ai:

(a) ar ôl i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor o ran y Bil Cydgrynhoi a'i fod wedi argymell y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol; neu

(b) ar ôl i'r dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad wedi mynd heibio;

(ac nad yw'r Senedd wedi derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.40 y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn y cyfamser); neu

(ii) o leiaf pum diwrnod gwaith naill ai;

(a) ar ôl i'r Senedd dderbyn cynnig y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen yn syth i'r Cyfnod Terfynol o dan Reol Sefydlog 26C.39; neu

(b) ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd, os cawsant eu cynnal.

26C.59. Rhaid i gynnig o dan Reol Sefydlog 26C.58 gael ei gyflwyno o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod.

26C.60. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil Cydgrynhoi gael ei basio.

26C.61. Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Cydgrynhoi yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil Cydgrynhoi ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

26C.62. Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Cydgrynhoi yn cael ei basio nes y bydd y Llywydd wedi datgan, yn unol ag adran 111A(3) o'r Ddeddf, a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig.

26C.63. Pan fo'r Llywydd wedi gwneud datganiad bod unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, ni chaiff y Bil ei basio oni bai bod y nifer sy'n pleidleisio o'i blaid yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd.

26C.64. Rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar gynnig bod Bil Cydgrynhoi yn cael ei basio.

26C.65. Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod Terfynol.

## Darpariaethau Cyffredinol mewn Perthynas â Gwelliannau i Filiau Cydgrynhoi

26C.78. Mae Rheolau Sefydlog 26C.79 i 26C.87 yn gymwys i welliannau yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu yn y Cyfnod Ailystyried, ac eithrio nad yw Rheol Sefydlog 26C.82(iii) yn gymwys i welliannau yn y Cyfnod Ailystyried.

26C.79. Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil Cydgrynhoi.

26C.80. Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi'i gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried.

26C.81. Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu'r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei ystyried.

26C.82. Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:

(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26C;

(ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil Cydgrynhoi neu ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi y byddai'n ei ddiwygio;

(iii) os byddai'n achosi i'r Bil beidio â bod yn Fil Cydgrynhoi fel y'i diffinnir yn Rheolau Sefydlog 26C.1 a 26C.2; neu

(iv) os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y Cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig.

26C.83. Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o'i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai'n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26C.78 i 26C.87 fod yn gymwys yn unol â hynny.

26C.84. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26C.28, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae'n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i'r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o'r fath, daw'r gwelliant yn welliant 172 yn enw'r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i'r gwelliant ac nad yw'n cytuno i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl..

26C.85. Caiff cadeirydd pwyllgor sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu.

26C.86 Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw'n amser trafod y gwelliant hwnnw, caniateir i'r gwelliant gael ei gynnig:

(i) yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, gan aelod o'r pwyllgor hwnnw; neu

(ii) yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu yn y Cyfnod Ailystyried, gan unrhyw Aelod arall.

26C.87. Caniateir i welliant sydd wedi'i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cynigiodd, ond dim ond:

(i) mewn pwyllgor sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, os na fydd aelod o'r pwyllgor hwnnw yn gwrthwynebu; neu

(ii) yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu yn y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu.